# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 06.02.08

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths - Cadeirydd**

**Aelodau Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Arwel Jones, Bill Lovelock, W. M. Meredith, Glyn Owen, R. Arwel Pierce ac Evie Morgan Jones (aelod ex-officio).

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill:** Y Parch. Ganon Tegid Roberts (Yr Eglwys yng Nghymru), Mr Gwyn Hefin Jones (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mrs Eirian Bradley-Roberts (Yr Eglwys Babyddol).

**Athrawon:** Mr Noel Dyer (UCAC)

**Swyddogion:** John Blake (Swyddog Addysg), Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Pat Larsen, Carol Llewelyn (Athrawes Ymgynghorol).

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Glyn Owen.

## 2. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Braf ydoedd gweld y Cynghorydd W. M. Meredith yn bresennol yn y cyfarfod yn dilyn derbyn llaw driniaeth i'w gefn ddechrau mis Rhagfyr ac yn amlwg wedi gwneud cynnydd da.

(b) Croesawyd y Cynghorydd Evie Morgan Jones, Is-gadeirydd y Cyngor, i'r cyfarfod. Yn yr un modd croesawyd Mrs Ruth Davies i'w chyfarfod cyntaf o CYSAG a oedd wedi ei phenodi i gynrychioli'r Bedyddwyr i olynu'r Parchedig Olaf Davies.

(c) Er yn absennol o'r cyfarfod, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai hwn ydoedd cyfarfod olaf Mr Dafydd Fôn Williams am ei fod yn ymddeol o'i swydd fel Pennaeth Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Cydnabuwyd ei ymroddiad a'i gefnogaeth i waith CYSAG ar hyd y blynyddoedd y bu'n cynrychioli'r penaethiaid (nid athrawon) a dymuniad y Pwyllgor ydoedd cyfleu eu dymuniadau gorau i Mr Williams am ymddeoliad hapus.

(ch) Cymerodd y Cadeirydd y cyfle, yn wyneb y ffaith mai hwn ydoedd cyfarfod olaf CYSAG cyn Etholiad y Cyngor ym mis Mai, i ddiolch i'w gyd-aelodau am eu

gwasanaeth a'u cyfraniad i waith CYSAG ac yr un pryd yn dymuno'n dda i'r rhai hynny oedd yn bwriadu ymddeol ac i'r rheiny a fyddai'n sefyll etholiad.

3. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar y 10 Hydref 2007.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

4. **MATER YN CODI O'R COFNODION**

**Adroddwyd:** Gan y Swyddog Addysg y bu iddo ofyn i Ysgol Llangybi ac Ysgol Uwchradd Tryfan addasu eu hunan arfarniad ac fe gyflwynir y rhain i gyfarfod nesaf CYSAG.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

5. **AROLYGIADAU YSGOLION**

**Cyflwynwyd:** (a) Gwybodaeth ar gynnwys adroddiadau arolygiadau ysgolion dan Adran 28 Deddf Addysg 2005 mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion.

(b) Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Gynradd y Parc
(ii) Ysgol Gynradd y Friog

**Adroddwyd:** (a) Gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod adroddiadau'r arolygiadau yn arbennig o dda ac yng nghyswllt y ddwy ysgol hynny oedd wedi derbyn graddau isel, 'roedd y cynllun gweithredu mewn lle i sicrhau datblygiad o'r meysydd hynny oedd angen sylw.

(b) Gan Ganon Tegid Roberts ei fod, fel rhan o dîm arolygu'r Esgobaeth, yn ymwybodol bod dwy ysgol wedi eu harolygu o dan Adran 50 o'r Ddeddf a bod copïau wedi eu hanfon i'r Cyngor ond nad oedd cyfeiriad at hyn yn adroddiadau'r ddwy ysgol benodol sef Pont y Gof, Botwnnog a Thregarth. Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Addysg oherwydd bod gweinyddiaeth y pwyllgor hwn wedi ei drosglwyddo i'r staff yn y swyddfa ardal yn Nolgellau bod dogfennaeth yn cymryd hirach i gyrraedd y man priodol ambell waith. Awgrymwyd i'r dyfodol mai gwell fyddai anfon yr arolygiad dan Adran 50 yn uniongyrchol i'r Swyddog Pwyllgor, Uned Bwyllgorau, Cae Penarlâg, Dolgellau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

6. **CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2007 yng Nglynebwy.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion**.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG GWYNEDD 2006/07**

**Cyflwynwyd:** Er gwybodaeth, adroddiad blynyddol terfynol CYSAG Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2006/07.

Rhoddwyd ystyriaeth gan yr aelodau i adroddiad terfynol CYSAG Gwynedd ar gyfer 2006-07. ‘Roedd y pwyllgor eisoes wedi datgan barn ar yr adroddiad drafft, a chadarnhawyd bod yr adroddiad bellach yn derfynol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diolch i’r Ymgynghorydd Dyniaethau am ei gwaith yn trefnu a chwblhau’r adroddiad terfynol.**

8. **FFRAMWAITH ENGHREIFFTIOL CENEDLAETHOL AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL**

Cyflwynodd Miss Bethan James, Ymgynghorydd Dyniaethau, y ddogfen uchod a ddarparwyd gan APADGOS (Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) i gynorthwyo awdurdodau addysg lleol gyda’u meysydd llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Atgoffwyd yr aelodau o gyfrifoldeb CYSAG sef i sicrhau bod addysg grefyddol yn rhan o brofiad addysgol cyfan sy’n helpu disgyblion i wneud synnwyr ohonynt hwy eu hunain, eu profiad, a’r byd y maent yn byw ynddo.

Fe gofia’r aelodau bod gofyniad cyfreithiol ar CYSAGau i adolygu eu meysydd llafur cytun pob pum mlynedd ac yn 2005 penderfyniad CYSAG Gwynedd ydoedd oedi hyd nes y derbyniwyd cyfeiriad cenedlaethol. Ers y cyfnod hwnnw, mae Addysg Grefyddol wedi derbyn sylw cenedlaethol gan roi cyfle i gynrychiolwyr o CYSAGau Cymru rannu syniadau.

Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd rhwng cynrychiolwyr o Wynedd a Môn i drafod y fframwaith enghreifftiol cenedlaethol a chytunwyd mewn egwyddor i’w fabwysiadu. Nodwyd bod athrawon yn gefnogol iawn i’r syniad o fframwaith cenedlaethol ei naws a bellach ‘roedd copi wedi ei anfon i bob ysgol gynradd ac uwchradd yng Ngwynedd ac eithrio’r Colegau Addysg Bellach.

Tywysodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau’r aelodau drwy rannau o’r ddogfen gan bwysleisio y cyflwynir y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol gyda’r bwriad o:

- Ganolbwyntio ar agweddau ar y pwnc a fydd yn ysgogi pob dysgwr ac yn eu hannog i ymwneud â'r maes hwn
- Gwneud addysg grefyddol yn fwy perthnasol i'r unfed ganrif ar hugain
- Rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau
- Ddarparu arweiniad mewn Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen
- Ymestyn y fframwaith i gynnwys Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16
- Ddarparu mwy o gyfle ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol

Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i:

- Ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth o Gristnogaeth a phrif grefyddau eraill a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol
- Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, sef cwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd
- Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sy'n darparu mewnwelediad i'r cwestiynau sylfaenol ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol pellach
- Mynegi ymatebion personol sy'n cysylltu'r materion sy'n codi yn ystod astudiaethau a phrofiadau'r disgyblion eu hunain a chaniatáu datblygu ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau ac arferion a chwestiynau sylfaenol, a'u gwerthuso

Pwysleisiodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau y byddai'n rhaid i CYSAG ystyried pa fath o ddogfen atodol y dymunent gyflwyno ar ran CYSAGau Gwynedd a Môn i gyd-fynd gyda'r Fframwaith Enghreifftiol cenedlaethol. Yn ogystal, nodwyd bod athrawon yn awyddus i dderbyn canllawiau dysgu ac addysgu ac fe dywyswyd yr aelodau drwy enghraifft o gynllun gwaith.

Gofynnir i'r Pwyllgor hwn, yng nghyd-destun y camau nesaf, gytuno ar amserlen, cyflwyno eu barn a phenderfynu pa fath o lansiad swyddogol y dymunent ar gyfer lansio'r Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol.

I derfynu, nododd yr Ymgynghorydd Dyniaethau y byddai'n cynnal cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Cynradd Gwynedd ar y dyddiadau canlynol a chroesawodd unrhyw Aelod o CYSAG Gwynedd i fynychu'r cyfarfodydd hyn pe dymunent:

9 Mehefin (Arfon)
10 Mehefin (Dwyfor)
12 Mehefin (Meirionnydd)

Wedi hynny, byddai'n ofynnol i CYSAGau Gwynedd a Môn, ar ffurf cynhadledd, fabwysiadu'r Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer eu meysydd llafur gyda bwriad o'i lansio yn ystod tymor yr haf ar gyfer ei weithredu o fis Medi 2008 ymlaen.

Amlygwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

(a) yng nghyd-destun darparu cyfleoedd ar gyfer disgyblion ôl-16, y byddai'n fanteisiol i gynnig profiad gwaith iddynt gyda gweithwyr sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol megis Offeiriaid, Caplaniaid mewn Ysbytai, a.y.b. Mewn ymateb, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau nad oedd yn ymarferol bosibl i bob plentyn ôl-16 gael profiad gwaith oedd yn benodol i ofynion y fframwaith addysg grefyddol yn unig ond wedi dweud hynny 'roedd athrawon Meirionydd a Dwyfor ar fin cael hyfforddiant drwy ymweld ag Ysbyty Gwynedd i gynnal trafodaeth gyda phobl o aml-ffydd, fferyllfeydd, a.y.b. gyda'r bwriad o ganfod bod Addysg Grefyddol yn berthnasol i fyd gwaith.

(b) mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â sut fyddai'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol yn amharu ar yr arolygiadau, rhagwelid y byddai hyn yn her ar gyfer hyfforddi arolygwyr ond ar y llaw arall y byddai'r drefn o gysondeb yn y meysydd llafur yn ei gwneud yn rhwyddach o ran arolygu.

(c) y byddai cynnwys y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol yn fanteisiol i Eglwysi a Chapeli ar gyfer athrawon ysgolion Sul.

**Penderfynwyd: Nodi a diolch i'r Ymgynghorydd Dyniaethau am ei chyflwyniad graenus ar gynnwys y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 pm a daeth i ben am 2.50 p.m.

**CADEIRYDD**